



WWW.CBAC.CO.UK/MYFYRWYR

HAF 2022

**CANLLAW CBAC
I FYFYRWYR AR
YSTYRIAETH ARBENNIG**

Haf 2022:

Canllaw CBAC i Fyfyrrwyr ar Ystyriaeth Arbennig

(i ganolfannau yng Nghymru)

Mae'r canllaw hwn yn cynnwys amrywiaeth o wybodaeth am *ystyriaeth arbennig* mewn perthynas ag arholiadau ac asesiadau (e.e. gwaith cwrs/Asesiad Di-arholiad) yr haf hwn.

Cofiwch, canllaw yw hwn yn unig. Mae'n bwysig i chi siarad â'ch ysgol neu goleg hefyd – byddan nhw'n gwybod a ydych chi'n gymwys ac atyn nhw y dylech chi fynd am unrhyw gyngor, nhw fydd yn gwybod orau.

Mae ein dogfen arall [Canllaw i Fyfyrrwyr as Addasiadau](#) yn cynnwys gwybodaeth bellach am yr holl newidiadau sydd wedi cael eu gwneud i arholiadau ac asesiadau'r haf hwn.

Mae'r wybodaeth sy'n dilyn yn berthnasol i bob myfyriwr, yn cynnwys ymgeiswyr preifat. I gael gwybod mwy am ystyriaeth arbennig, cysylltwch â'ch ysgol neu goleg.

Beth yw ystyriaeth arbennig?

Proses sy'n cael ei defnyddio ym mhob cyfres arholiadau yw ystyriaeth arbennig. Mae'n berthnasol os yw hyn yn digwydd i fyfyriwr:

- mae'n cael anaf neu afiechyd dros dro, neu rywbeth arall yn digwydd sydd y tu allan i'w reolaeth ar yr adeg mae'n sefyll yr arholiad
- mae'r sefyllfa dros dro yn effeithio ar ei allu i sefyll yr arholiad neu i ddangos ei lefel arferol o berfformiad

Cofiwch, dim ond crynodeb yw'r canllaw hwn – mae gwefan y CGC yn cynnwys mwy o wybodaeth – nhw sy'n gwneud yn siŵr bod pob bwrdd arholi'n dilyn yr un broses a bod pob un o'r myfyrrwyr yng Nghymru yn cael eu trin yn gyson.

A yw'r broses ystyriaeth arbennig wedi newid ar gyfer yr haf eleni?

Yn y bôn, mae'r broses ystyriaeth arbennig yr un fath eleni. Ond, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi [canllawiau](#) mewn perthynas â COVID-19, a allai effeithio ar fyfyrrwyr sy'n sefyll arholiadau'r haf hwn.

Ewch i [wefan Llywodraeth Cymru](#) i weld gwybodaeth am COVID-19, gan gynnwys y prif symptomau.

A fydd unrhyw ystyriaethau arbennig ar waith os ydw i'n cael COVID-19 yn ystod cyfnod yr arholiadau?

Os ydych chi'n aros gartref/yn ynysu ar adeg eich arholiad, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, efallai y bydd modd i chi gael ystyriaeth arbennig, gan eich bod yn absennol am 'reswm derbynol'. Os oes angen i chi ynysu oherwydd COVID-19, dylech siarad â'ch ysgol neu goleg. Byddan nhw'n gallu dweud wrthy'ch chi beth i'w wneud.

Beth ddylwn ei wneud os ydw i'n cael symptomau COVID-19 yn ystod yr arholiadau/asesiadau yn yr haf?

Os ydych chi'n cael unrhyw symptomau COVID-19 dylech chi ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru fel hyn:

- Os oes gennych chi unrhyw un o'r **prif symptomau** COVID-19, dylech hunanynysu a chymryd prawf llif unffordd (LFT).
- Os yw'r prawf llif unffordd yn bositif, dylech chi hunanynysu am o leiaf 3 diwrnod llawn. Diwrnod 1 yw'r diwrnod ar ôl i'r symptomau ddechrau. Dylech chi roi gwybod am [ganlyniad y prawf LFT](#)
- Ar ddiwrnod 3, os yw'r symptomau wedi diflannu, dylech chi gymryd prawf LFT. Os yw'r prawf hwnnw'n negatif, dylech chi gymryd prawf LFT arall ar ddiwrnod 4.
- Os yw'r prawf ar ddiwrnod 4 hefyd yn negatif, a'ch bod chi'n teimlo'n iawn a dim tymheredd uchel gennych chi, gallwch roi'r gorau i hunanynysu i sefyll eich arholiad. Dylech chi roi gwybod am [ganlyniad y prawf LFT](#).
- Os yw'r prawf naill ai ar ddiwrnod 3 neu 4 yn bositif, dylech chi barhau i hunanynysu a chysylltu â'ch ysgol neu leoliad addysg.
- Os oes gennych dymheredd uchel o hyd neu os ydych yn teimlo'n sâl, dylech barhau i hunanynysu nes y bydd eich tymheredd yn dychwelyd i normal, neu nes rydych yn teimlo'n well.
- Dylech barhau i gymryd profion LFT dyddiol nes y cewch 2 brawf negatif yn olynol, ddiwrnod ar wahân, neu tan ddiwrnod 10 - pa un bynnag sydd gyntaf. Nid oes angen prawf LFT negatif arnoch ar ddiwrnod 10 i roi'r gorau i hunanynysu.

Beth ddylwn ei wneud os ydw i'n colli fy arholiad oherwydd fy mod yn sâl a/neu wedi cael canlyniad positif ar brawf llif unffordd?

Peidiwch â mynd i banig, gwnewch y pethau hyn:

- Cysylltu â'ch ysgol neu goleg - gallwch chi neu eich rhiant/gwarcheidwad/gofalwr wneud hyn.
- Bydd eich ysgol neu goleg yn dweud wrthy'ch chi a ydych chi'n bodloni'r meini prawf i gael ystyriaeth arbennig ac yn absennol o'r arholiad am 'reswm derbyniol'.
- Bydd eich ysgol neu goleg yn cyflwyno cais i CBAC am ystyriaeth arbennig. Byddan nhw'n gofyn i chi lenwi ffurflen: *Hunanardystio i ymgeiswyr sydd wedi colli arholiad*. Os ydych chi'n 18 oed ac iau, bydd angen i'ch rhiant/gwarcheidwad/gofalwr lenwi'r ffurflen hon hefyd.
 - o Gwnewch yn siŵr eich bod yn llenwi'r ffurflen hon yn gywir. Mae'n bosibl na fyddwch chi'n derbyn cymhwyster os ydych chi'n rhoi gwybodaeth sy'n anghywir neu'n gamarweiniol.
 - o **Efallai** y bydd eich ysgol/coleg yn gofyn i chi hefyd am y cadarnhad gawsoch chi gan y GIG i ddweud eich bod wedi rhoi gwybod am ganlyniad eich LFT. Trafodwch hyn â'ch ysgol/coleg, efallai na fyddan nhw'n gofyn am hyn.

Os ydw i'n colli fy arholiad gan fod gennyf rai symptomau oedd ddim yr un fath â'r prif symptomau COVID-19, doeddwn i ddim yn teimlo'n sâl ac roedd fy mhrawf llif unffordd yn negatif, ydw i'n gymwys i gael ystyriaeth arbennig? **Ni fyddai** colli eich arholiad am y rhesymau rydych chi'n eu disgrifio uchod yn rheswm derbyniol dros golli'r arholiad. **Ni fydddech** chi'n gymwys am ystyriaeth arbennig.

Os ydw i wedi colli fy arholiad oherwydd bod un o brif symptomau COVID-19 arnaf i ond doeddwn i ddim yn gallu cael prawf LFT i gadarnhau a ydw i'n bositif neu negatif am COVID-19. Pan fydda i'n cael prawf LFT ac yn gwneud y prawf, mae'r canlyniad yn negatif. Ydw i'n gymwys am ystyriaeth arbennig?

Ar ddiwrnod yr arholiad, os oes gennych chi o leiaf un o brif symptomau COVID-19, fel y mae canllawiau Llywodraeth Cymru yn eu nodi, a bod dim modd i chi gael gafael ar brawf LFT, yn ôl y canllawiau dylech chi hunanynysu ac archebu prawf LFT ar unwaith. Pan fyddwch chi'n cymryd y prawf LFT ac os yw'r canlyniad yn negatif yna dylech chi roi gwybod am ganlyniad y prawf LFT. Nid oes angen i chi hunanynysu mwyach. Bydddech chi'n gymwys am ystyriaeth arbennig gan eich bod yn absennol am reswm derbyniol.

Sut bydd fy ngradd yn cael ei dyfarnu os ydw i'n gymwys am ystyriaeth arbennig?

Fel unrhyw gyfres arholiadau, os ydych chi'n gymwys am ystyriaeth arbennig ar ôl bod yn absennol o arholiad am 'reswm derbyniol', bydd CBAC yn cynhyrchu marciau os ydych chi'n colli arholiad yn y cymhwyster yn seiliedig ar:

- y marciau a ddyfarnwyd i chi am eich arholiadau/asesiadau a osodwyd gan CBAC y gwnaethoch chi eu cwblhau
a'ch
- perfformiad chi o gymharu â myfyrwyr eraill.

Ydw i'n gallu derbyn gradd am gymhwyster drwy'r broses ystyriaeth arbennig os nad ydw i'n cwblhau nac yn cyflwyno unrhyw rai o arholiadau CBAC?

Ni fydd cymhwyster yn cael ei ddyfarnu os na chafodd unrhyw arholiadau/asesiadau ffurfiol wedi'u gosod gan CBAC eu cwblhau.

Os ydw i'n pryderu bod COVID-19, neu afiechyd arall, ar fyfyrwyr eraill yn yr ystafell arholiadau ac felly ddim yn sefyll yr arholiad, a fydda i'n gymwys am ystyriaeth arbennig?

Os ydych chi'n dewis peidio â mynd i mewn i ystafell arholiadau am y rheswm uchod, **ni fyddai** hyn yn 'rheswm derbyniol' dros golli'r arholiad. **Ni fydddech** chi felly'n gymwys am ystyriaeth arbennig.

Gobeithiwn y bydd y canllaw hwn o gymorth i chi. Os oes angen mwy o gyngor arnoch chi, cofiwch fynd i siarad â'ch ysgol neu goleg. Gallan nhw ddweud wrthy'ch chi a ydych chi'n gymwys, ac maen nhw wrth law bob amser i roi cyngor i chi.